

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a
Chysylltiadau Rhyngwladol

Hawliau darlledu Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad

Ebrill 2024



Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon symud Pencampwriaeth y Chwe Gwlad o fod yn ddigwyddiad Grŵp B i fod yn ddigwyddiad Grŵp A fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig o dan Ddeddf Darlledu 1996.21

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon symud Pencampwriaeth y Chwe Gwlad o gategori digwyddiadau Grŵp B i gategori digwyddiadau Grŵp A fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig o dan Ddeddf Darlleu 1996.21

Argymhelliad 3. Os bydd Pencampwriaeth y Chwe Gwlad yn cael ei darlledu ar blatfformau talu i wyllo, dylai Llywodraeth y DU gyflwyno mesurau i ddiogelu'r diwydiant lletygarwch, gan gynnwys cymal contractiol gorfodol sy'n caniatáu tanysgrifiadau talu i wyllo rhatach ar gyfer tafarndai a chlybiau â gwerth ardrethol islaw swm penodol. Dylid gwneud hyn yn dilyn ymgynghoriad â'r diwydiant lletygarwch i bennu'r dull mwyaf priodol.....22

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth y DU gymryd camau i ddiogelu darllediad Cymraeg llawn o bencampwriaeth y Chwe Gwlad.....22

1. Y cefndir

1. Yn ystod hydref 2023, cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd gyfres o sesiynau craffu gyda rhanddeiliaid ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus i bennu sut roedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn perfformio.
2. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw ar 25 Mawrth 2024.¹
3. Ar ôl iddo ystyried y dystiolaeth i'r ymchwiliad hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor ymchwilio ymhellach i ba raddau mae'r drefn chwaraeon rhestredig bresennol fel y mae'n ymwneud â Phencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn addas i Gymru.

Cylch gorchwyl

4. Trafododd y Pwyllgor:
 - A ddylid symud Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad o Grŵp B i Grŵp A ar y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon o "ddiddordeb cenedlaethol", gan olygu y dylid cynnig darllediad byw llawn i ddarlledwyr daearol rhad ac am ddim;
 - Yr effaith y mae darlledu digwyddiadau chwaraeon poblogaidd ar wasanaethau tanysgrifio yn unig yn ei chael ar gynulleidfaoedd;
 - Yr effaith y mae darlledu digwyddiadau chwaraeon poblogaidd megis Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ar wasanaethau tanysgrifio yn unig yn ei chael ar fywyd diwylliannol Cymru;
 - Yr effaith y mae darlledu digwyddiadau chwaraeon poblogaidd ar wasanaethau tanysgrifio yn unig yn ei chael ar gyfranogiad chwaraeon;
 - Yr effaith y mae cynnwys digwyddiadau chwaraeon ar y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon o "ddiddordeb cenedlaethol" yn ei chael ar gyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol.

¹ Y Sefyllfa Bresennol - darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru

Casglu tystiolaeth

- 5.** Cyfarfu'r Pwyllgor ddydd Iau 1 Chwefror 2024 i ystyried tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad. Amlinellir y dystiolaeth a dderbyniwyd yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
- 6.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y sesiwn dystiolaeth ac a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig i lywio'r trafodaethau.

2. Y cyd-destun polisi

7. Mae'r ddadl ynghylch a ddylai gemau rygbi'r Chwe Gwlad gael eu rhestru ar gyfer darllediadau byw llawn ar deledu rhad ac am ddim yn mynd rhagddi ers peth amser. Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu'r cyd-destun polisi diweddar yn ymwneud â'r mater hwn.

Digwyddiadau rhestredig o 'ddiddordeb cenedlaethol'

8. Mae Deddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol Iunio rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill o ddiddordeb cenedlaethol.² Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r hawliau darlledu ar gyfer y digwyddiadau hyn gael eu cynnig i'r prif ddarlledwyr daearol rhad ac am ddim ar delerau teg a rhesymol.³ Y nod yw sicrhau bod y digwyddiadau ar gael i bob gwylwr teledu. Dylid nodi nad oes diffiniad o 'ddiddordeb cenedlaethol' yn Neddf 1996.⁴

9. Yn ôl Llywodraeth y DU, digwyddiad rhestredig yw un y teimlir at ei gilydd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol arbennig ac sy'n cynnwys elfen sy'n uno'r genedl, pwynt a rennir ar y calendr cenedlaethol, yn hytrach na rhywbeth sydd o ddiddordeb i'r rhai sy'n dilyn y gamp dan sylw yn unig.⁵ Ar wahân, mae canllawiau Ofcom yn nodi:

*"An event may be listed because it is of 'national' interest within England, Scotland, Wales or Northern Ireland separately. This is the basis on which the Scottish FA Cup Final, for example, has been listed. The Act allows for those events to be shown only in the relevant part of the UK in which there is likely to be most viewer interest."*⁶

10. Mae'r rhestr bresennol o ddigwyddiadau chwaraeon o ddiddordeb cenedlaethol wedi'i rhannu'n ddau gategori, Grŵp A a Grŵp B.⁷ Rhaid cynnig darllediad byw llawn o ddigwyddiadau Grŵp A i ddarlledwyr rhad ac am ddim

² [Rhan IV o Ddeddf Darlledu 1996](#)

³ [Ofcom Code on Sports and Other Listed and Designated Events](#)

⁴ [Rhan IV o Ddeddf Darlledu 1996](#)

⁵ [Coverage of sport on television – Is-adran Polisi Darlledu Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon](#)

⁶ [Ofcom Code on Sports and Other Listed and Designated Events](#)

⁷ [Ofcom Code on Sports and Other Listed and Designated Events](#)

cymwys. Gall digwyddiadau Grŵp B gael darllediadau byw ar deledu talu i wyllo ar yr amod bod darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud ar gyfer darllediadau eilaidd gan ddarllledwr rhad ac am ddim.⁸ Mae'r rhestr bresennol o ddigwyddiadau Grŵp A yn cynnwys y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd, Rownd Derfynol Cwpan Rygbi'r Byd, Rowndiau Terfynol Cwpan y Byd FIFA a Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Bêl-droed Ewrop (rowndiau terfynol y Dynion a'r Menywod). Mae hefyd yn cynnwys digwyddiadau megis Rowndiau Terfynol Tennis Wimbledon a'r Derby. Mae digwyddiadau Grŵp B yn cynnwys pob gêm arall yng Nghwpan Rygbi'r Byd, Pencampwriaeth y Chwe Gwlad a Gemau'r Gymanwlad.⁹

Dull gweithredu Llywodraeth y DU

11. Ym mis Tachwedd 2009, cynigiodd adolygiad o ddigwyddiadau rhestredig am ddim y dylid rhestru gemau Cymru ym Mhencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad (yng Nghymru yn unig), gan adlewyrchu pwysigrwydd cenedlaethol arbennig rygbi yng Nghymru.¹⁰

12. Ym mis Mawrth 2020, nododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y pryd fod y Chwe Gwlad wedi bod yn ddigwyddiad Grŵp B ers 1998. Ei ddadl ef oedd bod y rhestr bresennol yn gweithio'n dda a dadleuodd fod hyn yn creu'r cydbwysedd cywir rhwng cadw mynediad ar gyfer y cyhoedd a chaniatáu i ddeiliaid hawliau drafod er lles gorau eu camp. Daeth i'r casgliad nad oedd gan Lywodraeth y DU unrhyw fwiad i adolygu'r rhestr.¹¹ Cadarnhawyd y farn hon mewn gohebiaeth â ni ym mis Rhagfyr 2021.¹²

13. Ym mis Mehefin 2023, fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros y Cyfryngau, Twristiaeth a'r Diwydiannau Creadigol ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Syr John Whittingdale OBE AS ("y Gweinidog") wrth y Pwyllgor Materion Cymreig:

⁸ [Ofcom Code on Sports and Other Listed and Designated Events](#)

⁹ [Government adds women's international football tournaments to listed events regime – Llywodraeth y DU](#) – 25 Ebrill 2022

¹⁰ [Review of Free-to-air Listed Events](#) - Adroddiad gan y Panel Cyngori Annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

¹¹ [Written question: Rugby: Listed events](#) – Senedd y DU – 4 Mawrth 2020

¹² [Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yng Nghymru](#) – 6 Rhagfyr 2021 (Saesneg yn unig) [PDF 114 KB]

"...this [the Six Nations] is particularly important for the Senedd—while broadcasting is a reserved policy issue, sport is not, so if the Welsh Government had strong views about sport, we would be keen to discuss that with them."¹³

14. Ym mis Hydref 2023, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

"We've always said that if the Welsh Parliament argued very strongly that, for the good of sport in Wales, we needed to look again at the listed events, we would look at it, certainly. So, it's not closed."¹⁴

Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig

15. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ei adroddiad ar Ddarlledu yng Nghymru ar 27 Hydref 2023.¹⁵ Yn yr adroddiad hwnnw, roeddent yn argymhell y canlynol:

- dylai'r Llywodraeth ychwanegu Pencampwriaeth y Chwe Gwlad at Grŵp A o'r Digwyddiadau Chwaraeon Rhestredig, er mwyn sicrhau ei statws ar deledu daearol;
- dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru a darlledwyr i drafod sut y gellid diwygio'r drefn digwyddiadau rhestredig i gefnogi rhestr benodol o ddigwyddiadau yng Nghymru.
- dylid diwygio cylch gwaith Ofcom i sicrhau y gall ddynodi digwyddiadau yng Ngrŵp A a Grŵp B y Drefn Digwyddiadau Rhestredig a digwyddiadau penodedig nad ydynt wedi'u rhestru fel rhai lle mae sylwebaeth fyw yn y Gymraeg yn ofynnol.¹⁶

16. Gwrthododd Llywodraeth y DU yr argymhellion hyn.¹⁷ Fodd bynnag, nododd hefyd:

¹³ [Y Pwyllgor Materion Cymreig: Oral Evidence: Broadcasting in Wales – Q449](#) - 28 Mehefin 2023 - Tŷ'r Cyffredin

¹⁴ [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023, paragraff 117](#)

¹⁵ [Broadcasting in Wales – Y Pwyllgor Materion Cymreig](#) – 27 Hydref 2023 – Tŷ'r Cyffredin

¹⁶ [Broadcasting in Wales – Y Pwyllgor Materion Cymreig](#) – 27 Hydref 2023 – Tŷ'r Cyffredin

¹⁷ [UK Government Response to Broadcasting in Wales – Y Pwyllgor Materion Cymreig](#) – 23 Ionawr 2024 – Tŷ'r Cyffredin

“As sports policy is devolved, it would be for the Welsh Government to comprehensively evaluate in the first instance whether there is currently the right balance between Welsh rights-holders’ ability to generate sufficient income to invest in Welsh sport, and access for Welsh audiences to those sporting events. The UK Government would then take those considerations into account.”¹⁸

¹⁸ UK Government Response to Broadcasting in Wales – Y Pwyllgor Materion Cymreig – 23 Ionawr 2024 – Tŷ'r Cyffredin

3. Tystiolaeth a ystyriwyd

17. Cafodd ein Pwyllgor dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb yn hawliau darlledu gemau rygbi Cymru. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a ystyriwyd yn ein cyfarfod ar gyfer yr ymchwiliad hwn, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol a gasglwyd o ffynonellau eraill. Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu'r dystiolaeth a ystyriwyd gennym.

Deinameg y farchnad

18. Cymru yw'r unig un o wledydd y DU sydd ag unrhyw gemau rygbi yn ymddangos yn y rhestr o'r 10 rhaglen a gafodd eu gwyllo fwyaf yn y wlad honno yn 2022.¹⁹ Fel yn y flwyddyn flaenorol,²⁰ gêm Cymru v Ffrainc ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, a ddarledwyd ar BBC One ar 11 Mawrth 2022, oedd y rhaglen a gafodd ei gwyllo fwyaf yng Nghymru am y flwyddyn, gyda chynulleidfa o 652,000 ar gyfartaledd. Ymddangosodd gêm arall ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad (Lloegr v Cymru)]ymhlith y deng rhaglen a gafodd eu gwyllo fwyaf yn 2022 hefyd.²¹

19. Adroddwyd ym mis Mai 2021 fod Six Nations Rugby Limited wedi cytuno ar gytundeb darlledu pedair blynedd gyda'r BBC ac ITV i ddarlledu Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.²² Yn ddiweddarach yn 2021, collodd y BBC ac S4C yr hawliau darlledu i Gyfres Gemau Rhyngwladol yr Hydref i Amazon Prime, a ddarparodd eu hallbwn Cymraeg eu hunain hefyd.²³

20. Dywedodd Undeb Rygbi Cymru wrthym nad eu safbwynt nhw oedd y dylai'r Chwe Gwlad symud i ffwrdd oddi wrth ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ond dywedon nhw:

"...to place this restriction on rugby would artificially restrict the market for our media rights and significantly diminish our earning potential to devastating effect on our game."²⁴

¹⁹ [Ofcom Cyfryngau'r Genedl, Cymru 2023](#)

²⁰ [Ofcom Cyfryngau'r Genedl, Cymru 2022](#)

²¹ [Ofcom Cyfryngau'r Genedl, Cymru 2023](#)

²² [Six Nations: Organisers agree in principle to continued BBC and ITV deal](#) – BBC News – 21 Mai 2021

²³ [Wales rugby: TV offers 'not enough' to air free coverage](#) – BBC News – 20 Hydref 2021

²⁴ [Tystiolaeth gan Undeb Rygbi Cymru: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad](#) (Saesneg yn unig)

21. Ychwanegodd Six Nations Rugby Limited ei bod yn bwysig cael cydbwysedd rhwng cyrhaeddiad a chynhyrchu refeniw er mwyn caniatáu i gyrff llywodraethu rygbi ailfuddsoddi ar draws y gêm.²⁵ Rhannwyd y farn hon gan yr Association for Commercial Broadcasters and On-Demand Services (“COBA”) a ddywedodd wrthym fod cystadleuaeth am hawliau yn hollbwysig er mwyn buddsoddi mewn chwaraeon ar lawr gwlad.²⁶

22. Nododd yr Athro Richard Haynes (Prifysgol Stirling), athro mewn diwylliant, y cyfryngau a chyfathrebu, nad dilyn model masnachol pêl-droed yw'r model cywir i chwaraeon eraill ei ddilyn o reidrwydd. Roedd hyn oherwydd bod pêl-droed yn elwa ar fod y gamp fwyaf yn y byd.²⁷

23. Yn ystod hydref 2023, fel rhan o'n hymchwiliad i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, dywedodd y BBC wrthym mai cyllideb gyfyngedig sydd ganddynt ar gyfer chwaraeon:

“I could spend the whole licence fee on sports. We are ducking and diving a little bit in terms of sharing events—with ITV on the rugby. We are going to have to do that to keep within the constraints of our budget.”²⁸

24. Mewn gohebiaeth â ni yn flaenorol, dywedodd Ofcom wrthym:

“PSBs [public service broadcasters] have maintained a steady level of investment in sports in recent years, largely driven by focus on Listed Events. However, there are a number of challenges facing PSBs that may impact their ability to compete for sports rights. PSBs are facing budget constraints, whether from a freeze to the licence fee or a downturn in the advertising market, and this is compounded by production cost inflation. Sports rights can be expensive, and these

²⁵ Tystiolaeth gan Six Nations Rugby Limited: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad. (Saesneg yn unig) [PDF 353 KB]

²⁶ Tystiolaeth gan y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol a Gwasanaethau Ar Alw (COBA): Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad (Saesneg yn unig) [PDF 470 KB]

²⁷ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. [Chwefror 2024. – paragraffau 236-237.]

²⁸ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. – 16 Tachwedd 2023. – paragraff 196

budget constraints may be impacting PSBs' ability to compete for these rights packages.”²⁹

25. Ychwanegodd Ofcom fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn wynebu cystadleuaeth gan sefydliadau cyfryngau byd-eang sy'n ehangu i'r farchnad hon.³⁰ Er nad yw hon yn her newydd, gan fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cystadlu yn erbyn platfformau talu i wyllo o'r blaen, mae Ofcom yn nodi bod yr her yn dod yn fwy aciwt.³¹

26. Roedd yr Athro Haynes yn rhannu barn debyg i'r un a roddwyd gan Ofcom:

“...if it was on the open market, I would say the likelihood of BBC, ITV retaining rights to the six nations is also a bit of a dodgy proposition.”³²

27. Dywedodd yr Athro Haynes fod y syniad o dalu i wyllo chwaraeon wedi'i normaleiddio:

“It's kind of common ground that if you want to watch the sport that you're interested in, then most likely you have to pay for it. But, of course, that raises lots of questions about ability to pay and so on and so forth.”³³

28. Buom hefyd yn trafod effaith statws digwyddiad Grŵp A ar hyfywedd masnachol chwaraeon eraill. Wrth drafod Pencampwriaethau Tennis Wimbledon, dywedodd yr Athro Haynes:

²⁹ [Gohebiaeth gan Ofcom: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru - 10 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig) [PDF 294 KB]

³⁰ [Gohebiaeth gan Ofcom: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru - 10 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig) [PDF 294 KB]

³⁰ [Gohebiaeth gan Ofcom: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru - 10 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig) [PDF 294 KB]

³¹ [Gohebiaeth gan Ofcom: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru - 10 Hydref 2023](#) (Saesneg yn unig) [PDF 294 KB]

³² [Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 1 Chwefror 2024 - paragraff 292](#)

³³ [Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 1 Chwefror 2024 - paragraff 208](#)

"...I don't think they're struggling commercially. If Wimbledon were to go behind a paywall I think that would change the dynamic of tennis in the UK, at least, quite radically."³⁴

29. Nododd Huw Llywelyn Davies, cyn-sylwebydd rygbi'r BBC, a Llywydd Clwb Rygbi Pentyrch, fod ystyriaethau economaidd-gymdeithasol i hyn hefyd. Dywedodd wrthym fod Cymru yn fwy dosbarth gweithiol yn draddodiadol na chenedloedd eraill a bod:

"...llai o arian ar gael i'r cefnogwyr rygbi, ac, erbyn hyn, mae mynd â theulu i wyllo gêm yn fyw—gall hynny gostio £500, £600 i rywun, ac mae hwnna y tu hwnt i boced lawer iawn."³⁵

Sefyllfa ariannol Undeb Rygbi Cymru

30. Cyn ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd URC wrthym:

"Put simply, the negative financial implications of moving international rugby matches in the Six Nations Rugby Championship to the protected list could have a devastating impact on the whole of the game in Wales in the medium and long term."³⁶

31. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda nhw, ymhelaethodd URC ymhellach ar ganlyniadau ariannol aiddosbarthu'r Chwe Gwlad fel digwyddiad Grŵp A:

"...our total revenue is approximately £90 million a year, and our media rights revenue has been, on average, about £20 million ...if we were to get less in that media revenue, that's less money we can invest in Welsh rugby. And it's not a small amount of our revenue,

³⁴ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ...] Chwefror 2024. - paragraff 298

³⁵ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ...] Chwefror 2024. - paragraff 224

³⁶ Tystiolaeth gan Undeb Rygbi Cymru: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad (Saesneg yn unig) [PDF 194 KB]

and we had the conversation last week about the impact of our loans and all of those things—we would struggle to survive.”³⁷

32. Pe bai'r Chwe Gwlad yn dod yn ddigwyddiad Grŵp A at ddibenion y drefn digwyddiadau rhestredig, gallai mesurau lliniaru ariannol helpu. Dywedodd Seimon Williams, colofnydd rygbi, blogiwr ac awdur "Welsh Rugby: What Went Wrong", wrthym:

“Un ohonyn nhw yw i wneud i fyny unrhyw wahaniaeth rhwng y cytundeb fyddai'n cael ei sicrhau trwy fynd i gategori A ac aros ar gategori B...byddai'n opsiwn i wneud hynny i fyny, efallai drwy roi grantiau i glybiau cymunedol ar lawr gwlad, y math yna o beth.”³⁸

33. Ychwanegodd mai opsiwn arall fyddai ailnegodi benthyciadau presennol gan eu bod yn cymryd £8 miliwn o'r gêm bob blwyddyn.³⁹

34. Roedd y benthyciadau y cyfeiriodd Seimon Williams atynt yn fenthyciadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i URC ym mis Mawrth 2022.⁴⁰ Yn achos y benthyciadau hyn, dywedodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth y canlynol ym mis Mawrth 2022:

“Ar ôl i'r URC wneud cais i'r perwyl hwnnw, cymerodd Llywodraeth Cymru gam digynsail, ond angenrheidiol, gan gytuno i roi benthyciad o £18 miliwn i URC er mwyn iddo fedru ailgyllido'r benthyciad tair blynedd yr oedd ganddo eisoes o dan Gynllun Llywodraeth y DU i roi Benthyciadau Tarfu ar Fusnesau Mawr yn sgil y Coronafeirws (CLBILS). Bryd hynny, nid oedd URC yn gallu bodloni telerau'r benthyciad. Fe'i gwnaed yn glir wrth Weinidogion Cymru y byddai'r sefydliad – a'r pedwar rhanbarth – yn wynebu risgiau ariannol a

³⁷ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 111

³⁸ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 281

³⁹ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 281

⁴⁰ Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad – 8 Chwefror 2024

fyddai'n bygwth eu bodolaeth pe na baent yn cael cymorth brys ar ffurf benthyciad wedi'i ailgyllido.”⁴¹

35. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod hwn wedi cael cyfnod ad-dalu estynedig o 18 mlynedd i roi cyfle i'r undeb adfer [yn ariannol yn dilyn y pandemig].

Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd mai benthyciad masnachol yw hwn, ac nid benthyciad Covid.⁴²

36. Mae'r llythyr gan y Dirprwy Weinidog yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £14 miliwn i rygbi, o grant nad oes rhaid ei ad-dalu, yn ystod y pandemig Covid-19.⁴³

37. Mewn sesiwn dystiolaeth flaenorol gyda'n Pwyllgor, dywedodd URC wrthym na all barhau i ariannu'r rhanbarthau ar yr un lefel ag y gwnaeth yn flaenorol, oni bai bod yr undeb ei hun yn dod yn fwy llwyddiannus yn fasnachol.⁴⁴

Cyfranogiad mewn rygbi

38. Gwnaethom drafod hefyd yr effaith mae darlledu'r Chwe Gwlad yn ei chael ar gyfranogiad mewn rygbi. Yn ôl URC:

“The health of Welsh rugby relies heavily upon the income generated by its media rights. This funding fuels the investment in the development and grassroots areas of the game and therefore its long-term sustainability.”⁴⁵

39. Nododd Huw Llywelyn Davies fod y penderfyniad i ddarlledu llai o rygbi ar deledu rhad ac am ddim yn bendant wedi effeithio ar gyfranogiad:

⁴¹ Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad – 8 Chwefror 2024

⁴² Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad – 8 Chwefror 2024

⁴³ Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad – 8 Chwefror 2024

⁴⁴ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol – 24 Ionawr 2024 – paragraff 116

⁴⁵ Tystiolaeth gan Undeb Rygbi Cymru: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad. (Saesneg yn unig) [PDF 194 KB]

*"dwi'n credu, fod llai o bobl yn gwylio rygbi ar y teledu a bod hynny yn andwyol, mewn ffordd, i'r gêm yng Nghymru, oherwydd mae yna gysylltiad rhwng y nifer sy'n gwylio'r teledu a'r nifer sy'n chwarae."*⁴⁶

40. Er bod gosod chwaraeon y tu ôl i wal dalu yn cynyddu incwm masnachol (sy'n helpu i ariannu camp ar bob lefel, gan gynnwys ar lawr gwlad), rhybuddiodd yr Athro Haynes fod gwelededd y gamp yn lleihau o ganlyniad.⁴⁷ Yn hynny o beth, dywedodd y canlynol:

*"...if you can't see it, you can't be it..."*⁴⁸

41. Yn un o sesiynau blaenorol y Pwyllgor, nododd URC fod nifer y gwrywod sy'n chwarae rygbi yn lleihau⁴⁹:

*"All unions across the world are seeing a real struggle to maintain the number of players playing, certainly on the male side. The female side is not as mature, so the female side in most countries seems to be going up, but the male side is under challenge."*⁵⁰

42. Ategwyd y farn hon gan Huw Llywelyn Davies. Rhybuddiodd nad oedd rygbi ar lawr gwlad yng Nghymru mewn sefyllfa iach:

*"Mae llai yn chwarae. Os edrychwch chi ar benwythnos o rygbi yng Nghymru, mae tua 20 gêm yn cael eu gohirio bob penwythnos achos bod timoedd yn methu cael digon o chwaraewyr i ymgymryd â'r gêm."*⁵¹

⁴⁶ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 204

⁴⁷ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 235

⁴⁸ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 235

⁴⁹ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 24 Ionawr 2024 – paragraff 41

⁵⁰ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 24 Ionawr 2024 – paragraff 41

⁵¹ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 269

Yr effaith ar letygarwch

43. Gwnaethom ofyn i URC pa effaith y gallai gosod y twrnaint ar blatfform talu i wyllo ei chael ar y sector lletygarwch (yn enwedig y sector cydweithredol, a lleoliadau megis clybiau rygbi a/neu glybiau cymdeithasol lleol). Roeddem yn pryderu na fydd lleoliadau o'r fath, o bosibl, yn gallu fforddio'r tanysgrifiadau sy'n ofynnol. Mewn ymateb i hyn, dywedodd URC y canlynol:

"We recognise that and that will absolutely be part of our consideration, looking at the number of different players in the market as we go through the bidding process, and trying to make sure that we're not making that access too complicated or unaffordable."⁵²

44. Dywedodd UK Hospitality nad yw unrhyw beth yn fforddiadwy i'r diwydiant lletygarwch yn yr hinsawdd ariannol bresennol, a bod elw'n cael ei wasgu ymhobman.⁵³ Ychwanegon nhw fod yr agwedd gymunedol o ddod ynghyd mewn tafarn leol yr un mor bwysig â'r sefyllfa economaidd:

"...the community factor is probably as important to Welsh people as the perpetuation of the economic surroundings for their local pub—the chance to get together. There is a unique atmosphere in our pubs when these things happen."⁵⁴

45. Dywedodd UK Hospitality wrthym hefyd fod cael gemau'r Chwe Gwlad ar deledu rhad ac am ddim yn hanfodol i'r sector:

"...it's the period between January and March that's really critical to pubs' survival. You will have seen—. I mean, we've got 10 per cent

⁵² Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ...] Chwefror 2024 ... paragraff 87

⁵³ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ...] Chwefror 2024 ... paragraff 214

⁵⁴ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ...] Chwefror 2024 ... paragraff 218

more pub closures than England in Wales...It's this period now that is particularly relevant and that's when the key six nations comes in."⁵⁵

Negodi hawliau darlledu

46. Roedd safbwynt URC ar negodi hawliau yn glir:

*"Our position is not that Six Nations Championship rugby should be moved away from free-to-air television channels. It is that to place this restriction on rugby would artificially restrict the market for our media rights and significantly diminish our earning potential to devastating effect on our game."*⁵⁶

47. O ran cyrraedd y gynulleidfa, ychwanegodd URC:

*"The balance we must strike is between that reach and pounds, shillings and pence, because if you go totally for reach, the discrepancy between what you could get between free-to-air and pay tv is so large you won't make it up, so you get greater reach, but the money won't go as far..."*⁵⁷

48. Yn ôl URC, byddai gwneud y twrnamaint yn ddigwyddiad Grŵp A yn arwain at gynigion is gan na fyddai angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gystadlu am yr hawliau gyda phlatfformau talu i wyllo:

*"I think our argument is, if we were to move onto the A list, the tension would be taken out and therefore they would bid, potentially, lower because they wouldn't have to be competing."*⁵⁸

⁵⁵ Y.P.wyllgor.Diwylliant.Cyfathrebu.y.Gymraeg.Chwaraeon.a.Chysylltiadau.Rhyngwladol...]. Chwefror.2024.-.paragraff.219

⁵⁶ Tystiolaeth.gan.Undeb.Rygbi.Cymru: Hawliau.darlledu.rygbi'r.Chwe.Gwlad (Saesneg yn unig) [PDF 194 KB]

⁵⁷ Y.P.wyllgor.Diwylliant.Cyfathrebu.y.Gymraeg.Chwaraeon.a.Chysylltiadau.Rhyngwladol...]. Chwefror.2024.-.paragraff.26

⁵⁸ Y.P.wyllgor.Diwylliant.Cyfathrebu.y.Gymraeg.Chwaraeon.a.Chysylltiadau.Rhyngwladol...]. Chwefror.2024.-.paragraff.113

49. Cadarnhaodd URC hefyd fod platfformau talu i wyllo wedi cynnig am yr hawliau i'r twrnaint yn y gorffennol:

"I understand there was at least one offer, possibly two offers, from pay tv broadcasters, and the decision was taken that the difference was not enough to make up for the reach."⁵⁹

50. Gwnaethom hefyd ofyn i URC pa ddylanwad sydd gan CVC Capital Partners (sy'n berchen ar gyfran o 14 y cant yn Six Nations Rugby Limited) ar drafodaethau darlledu. Gwnaethom herio URC y gallai CVC Capital Partners fod â diddordeb mewn gwerthu'r hawliau am y pris uchaf posibl. Gwrthododd URC hyn, fodd bynnag, drwy ddweud wrthym:

"...they actually want to grow the game, because they understand that if they grow the game, the revenues will increase and they're more likely to get a return on their investment. So, they're not in it for short-term gain. I've not seen any evidence of that in my time around that table."⁶⁰

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

51. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor Materion Cymreig yn flaenorol:

"The availability of sports programming through the medium of Welsh is also essential to the Welsh Government's ambitions for the Welsh language as set out in our strategy, Cymraeg 2050, and plays a vital role promoting the language to traditional as well as non-traditional Welsh language audiences."⁶¹

52. Pwysleisiodd URC eu hymrwymiad i'r Gymraeg:

⁵⁹ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol --] Chwefror 2024 -- paragraff 58

⁶⁰ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol --] Chwefror 2024 -- paragraff 164

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad Darlledu yng Nghymru -- Y Pwyllgor Materion Cymreig -- Tŷ'r Cyffredin (Saesneg yn unig)

"I'd like to reassure the committee of our commitment to the Welsh language and our understanding of the importance of the Welsh language, and that certainly will not change during these negotiations."⁶²

53. Nododd Seimon Williams hefyd pa mor bwysig oedd arlwy Cymraeg:

"Dwi'n meddwl ei bod hi'n hollbwysig, beth bynnag sy'n digwydd, bod yna ddarpariaeth Gymraeg ar gael yn agored. Yn ddiweddar, mae Amazon wedi darparu dau ffrwd, fwy neu lai yn union fel ei gilydd, yn ystod gemau'r hydref—roedd hwnna i'w weld yn gweithio'n reit dda. Ond mae'n rhaid iddo fe fod ar gael ac yn hawdd i'w gyrraedd, ac o safon hefyd."⁶³

54. Mae Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, wedi dweud o'r blaen y byddai symud ymhellach oddi wrth ddarlledu chwaraeon am ddim yn ei gwneud yn angenrheidiol sicrhau bod sylwebaeth Gymraeg yn cael ei darparu.⁶⁴

⁶² Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 168

⁶³ Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 1 Chwefror 2024 – paragraff 258

⁶⁴ Y Pwyllgor Materion Cymreig – Tŷ'r Cyffredin – 28 Mehefin 2023 – Q407 (Saesneg yn unig)

4. Casgliadau

55. Y cwestiwn syml a oedd yn ein hwynebu fel Pwyllgor oedd a ddylid gwneud Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn ddigwyddiad Grŵp A ai peidio fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig o dan Ddeddf 1996. Nid oedd hwn yn gwestiwn hawdd i ni ei drafod, a gwnaethom geisio pwysu a mesur nifer o ffactorau wrth ei drafod. Credwn fod dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn cyflwyno newid o'r fath, yn enwedig wrth ystyried yr angen i gynhyrchu digon o incwm i sicrhau bod rygbi'n ffynnu ochr yn ochr â'r angen i gynnal a sicrhau bod cynulleidfa mor eang â phosibl yn gallu gweld y gêm yng Nghymru. Mae gan rygbi, a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad yn arbennig efallai, le arbennig yng nghalonau ac yn enaid y Cymry, ac nid oedd hyn byth yn bell o'n meddyliau.

56. Amlinellodd URC bwysigrwydd cadw tensiwn yn y farchnad er mwyn medru cynhyrchu digon o incwm drwy werthu hawliau darlledu'r twrnamaint. Roeddent yn awyddus i danlinellu bod cadw statws digwyddiad Grŵp B yn allweddol i gadw'r tensiwn hwn yn y farchnad. Mae'n amlwg i ni pa mor werthfawr yw hawliau darlledu fel ffrwd incwm i URC sydd, yn ei dro, yn hybu rygbi ar lawr gwlad yng Nghymru. Rydym o'r farn fod y problemau ariannol sy'n wynebu URC a rygbi Cymru, yn ogystal â chwaraeon eraill yn gyffredinol, yn mynd y tu hwnt i'r hyn a drafodir yn yr adroddiad hwn, a'u bod y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn.

57. Ar y llaw arall, soniwyd wrthym am yr heriau sydd ynghlwm wrth y ffaith bod llai o bobl yn chwarae yng Nghymru, yn enwedig yn achos rygbi dynion. Rhannwyd pryderon ynghylch yr effaith niweidiol y gallai gosod y twrnamaint y tu ôl i wal dalu ei chael ar y niferoedd sy'n chwarae. Fel y dywedodd un tyst, ni allwch fod yn rhywbeth na allwch ei weld. Yr enghraifft amlycaf o hyn yw hanes criced yn y DU ers iddo gael ei osod ar blatfform talu i wyllo. Cafodd gemau prawf cartref tîm criced Lloegr eu symud i blatfform talu i wyllo yn 2006. Yn ystod y cyfnod rhwng 2006-07 a 2015, bu gostyngiad o 32 y cant yn y niferoedd a oedd yn chwarae.⁶⁵ Mae'n amlwg fod canlyniadau clir o ran cyfranogi mewn chwaraeon pan fyddwch yn penderfynu mynd ar drywydd cyllid ar draul cyrraedd cynulleidfaoedd.

⁶⁵ [Fall in Sky Ashes viewing figures leaves English cricket facing stark choices](#) – The Guardian – 12 Gorffennaf 2015

58. Ar ben hynny, byddem yn nodi fod yr drefn digwyddiadau rhestredig, fel y'i hamlinellir yn Neddf 1996, yn ymwneud â rhoi cyfle i ddarllediadau byw fod ar gael. Nid yw'r ffaith bod digwyddiad wedi'i gynnwys ar y rhestr yn golygu bod rhaid iddo gael ei ddangos ar y teledu. Nid oes rheidrwydd ar ddeiliaid hawliau chwaraeon i gynnig digwyddiadau ac nid oes rheidrwydd ar ddarlledwyr i wneud cais i'w darlledu.⁶⁶

59. Mae ein trafodaethau hefyd wedi canolbwyntio ar rôl rygbi yn ein bywyd cenedlaethol. Er bod Cymru wedi rhagori mewn pob math o ddigwyddiadau chwaraeon yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gan rygbi, yn sicr, arwyddocâd arbennig yn ein bywyd diwylliannol. Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r sector a'r gêm, rydym wedi dod i'r casgliad fod yn rhaid diogelu'r arwyddocâd arbennig hwn i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn gallu gwyllo'r gêm heb orfod talu am y fraint o wneud hynny. Mae'n gêm sy'n cael ei choleddu gan y dosbarth gweithiol yng Nghymru ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae wedi helpu i adrodd hanes Cymru fel cenedl ar lwyfan y byd. Byddai'n amhosibl mesur cymaint tlotach fyddai'n diwylliant pe baem yn collid cysylltiad cryf hwnnw â'r gêm.

60. Gan hynny, credwn y dylid gwneud Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn ddigwyddiad Grŵp A fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig. Mae hwn wedi bod yn benderfyniad anodd i ni fel Pwyllgor gan ei bod yn ddadl gyfartal iawn. Rydym wedi pwyso a mesur yn ofalus, ac nid ydym yn dymuno diystyru pryderon URC. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r ystyriaethau hanfodol bwysig hyn, at ei gilydd, yn drech na phwysigrwydd rygbi i'r bywyd diwylliannol.

Argymhelliad 1. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon symud Pencampwriaeth y Chwe Gwlad o fod yn ddigwyddiad Grŵp B i fod yn ddigwyddiad Grŵp A fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig o dan Ddeddf Darlledu 1996.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon symud Pencampwriaeth y Chwe Gwlad o gategori digwyddiadau Grŵp B i gategori digwyddiadau Grŵp A fel rhan o'r drefn digwyddiadau rhestredig o dan Ddeddf Darlledu 1996.

61. Fodd bynnag, os nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon i symud Pencampwriaeth y Chwe Gwlad o Grŵp B i

⁶⁶ Coverage of sport on television -- Broadcasting Policy Division, Department for Culture, Media and Sport

Grŵp A, credwn fod rhaid ystyried mesurau ychwanegol i ddiogelu'r diwydiant lletygarwch (pe bai'r Chwe Gwlad yn cael ei symud i blatfform talu i wyllo). O ystyried y cyfraniad y mae rygbi'n ei wneud at ein bywyd diwylliannol, credwn fod angen cyflwyno mesurau diogelu penodol i sicrhau y dylai tafarndai a chlybiau llai allu fforddio dangos gemau byw.

Argymhelliad 3. Os bydd Pencampwriaeth y Chwe Gwlad yn cael ei darlledu ar blatfformau talu i wyllo, dylai Llywodraeth y DU gyflwyno mesurau i ddiogelu'r diwydiant lletygarwch, gan gynnwys cymal cytundebol gorfodol sy'n caniatáu tanysgrifiadau talu i wyllo rhatach ar gyfer tafarndai a chlybiau â gwerth ardrethol islaw swm penodol. Dylid gwneud hyn yn dilyn ymgynghoriad â'r diwydiant lletygarwch i bennu'r dull mwyaf priodol.

62. Credwn hefyd fod yn rhaid diogelu'r drefn o ddarlledu Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn Gymraeg. Mae'n hanfodol sicrhau darllediad Cymraeg, nid yn unig i roi dewis i siaradwyr Cymraeg, ond hefyd i hybu'r Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg a dysgwyr wrth i ni weithio tuag at Cymraeg 2050 Yn y cyswllt hwn, credwn fod yn rhaid cynnig darllediad Cymraeg llawn. Mae hynny'n cynnwys darlledu cyn ac ar ôl y gemau, a'r opsiwn i gael sylwebaeth Gymraeg.

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth y DU gymryd camau i ddiogelu darllediad Cymraeg llawn o bencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
1 Chwefror 2024	<p>Abi Tierney, Prif Swyddog Gweithredol, Undeb Rygbi Cymru</p> <p>Nigel Walker, Cyfarwyddwr Gweithredol Rygbi, Undeb Rygbi Cymru</p> <p>Dave Chapman, Cyfarwyddwr Gweithredol yng Nghymru UK Hospitality</p> <p>Huw Llywelyn Davies, cyn-sylwebydd rygbi BBC Cymru Wales, a Llywydd Clwb Rygbi Pentyrch</p> <p>Yr Athro Richard Haynes, athro mewn Cyfathrebu, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Stirling</p> <p>Seimon Williams Awdur "Welsh Rugby: What Went Wrong?"</p>

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Sefydliad
Undeb Rygbi Cymru
Six Nations Rugby Limited
Y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol a Gwasanaethau Ar Alw.